Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Cyfarwyddwr Cyffredinol – Director General

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

11 Chwefror 2020

Annwyl Gadeirydd

Caffael Cyhoeddus

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Ionawr am yr effaith bosibl a gaiff unrhyw dariffau yn y dyfodol, yn deillio o Brexit, ar y broses gaffael.

Mae trawsnewid yr UE wedi creu darlun cymhleth o ran y tariffau posibl a'r goblygiadau ar gyfer caffael. Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddeall y goblygiadau ble bynnag y bo hynny'n bosib.

Yr Adran Masnach Rhyngwladol sydd â chyfrifoldeb yn y pen draw dros benderfynu ar dariffau, gan gynnwys amserlen y tariffau dros dro a gafodd ei chyhoeddi fis Hydref y llynedd. Bu i'r drefn tariffau dros dro ryddhau canran fawr o'r tariffau ar gyfer mewnforio i'r DU. Ar yr un pryd, rydym wedi bod mewn cysylltiad agos â'r Adran Masnach Rhyngwladol ynghylch y datblygiadau a fu o ran diogelu cytundebau parhad masnach, gyda gwledydd sydd â chytundeb â'r UE ar hyn o bryd.

Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'u swyddogion cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ynghylch deall a rheoli effaith unrhyw dariffau mewnforio newydd. Bydd y tariffau yn parhau i gael eu monitro rhag ofn y bydd newidiadau yn y dyfodol. Buaswn yn hapus i roi'r newyddion diweddaraf i'ch Pwyllgor mewn gohebiaeth pan a ble y bydd newidiadau perthnasol yn y maes hwn.

Dymuniadau da.

Yn gywir



Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE